

CYMORTH CANSER MACMILLAN

# Gwneud beth bynnag mae'n ei gymryd

## Trosolwg Blynyddol Cymorth Canser Macmillan 2023

Gwirfoddolwr Macmillan yn bloeddio ar redwyr yn y Great North Run

# Byw gyda chanser yn 2023

Rydym ni'n amcangyfrif bod mwy na thair miliwn o bobl yn byw gyda chanser yn y DU ar hyn o bryd. Mae Sal, sydd yn 48 mlwydd oed o Swydd Gaerhirfryn, yn un ohonynt. Gall diagnosis canser fod yn gyfnod hynod o anodd a gall effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun. Uchelgais Macmillan yw bod yno i bawb sy'n byw gyda chanser i ddarparu cymorth corfforol, emosiynol ac ariannol.

Yn 2023, roedd argyfwng costau byw parhaus, pwysau cynyddol ar y GIG, amseroedd aros am ddiagnosis a thriniaeth yn gwaethygu, ac anghydraddoldebau iechyd llym hefyd wedi effeithio'n andwyol ar ganlyniadau a phrofiadau llawer o bobl â chanser.

Mae gan bawb sydd â chanser yr hawl i gael triniaeth amserol a gofal sy'n iawn iddyn nhw ac i fyw'n dda gyda chanser a thu hwnt, ac mae Macmillan yno bob cam o'r ffordd.

**"Yn ariannol, nid yw canser wedi bod yn garedig i mi. Mae cael diagnosis o ganser yn ystod argyfwng costau byw yn teimlo fel ein bod ni'n rhedeg ond yn aros yn llonydd. Ers i mi gael canser, ni allwn fforddio troi'r gwres canolog ymlaen. Rwy'n mynd yn oer oherwydd y tamoxifen ac mae'n rhaid i mi guddio o dan lawer o flancedi. Mae Macmillan wedi fy helpu i gadw fy mhen uwchben y dŵr trwy ddarparu grant untro i ni. Roedd hwn yn achubiaeth."**



Sal, wedi cael diagnosis o ganser y fron

# Cipolwg ar 2023

Rydyn ni yma i helpu pawb sydd â chanser i fyw bywyd mor llawn ag y gallant. Byddwn yn gwneud beth bynnag mae'n ei gymryd, ni waeth beth yw anghenion person. Byddwn yn gwrando arnyn nhw a'u cefnogi sut bynnag y mae angen i ni – ni waeth pa mor fawr neu fach.

**Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy am y gwahaniaeth a wnaethom yn 2023.**

## 2.3 miliwn

Fe wnaeth ein gwasanaethau gyrraedd a chefnogi amcangyfrif o 2.3 miliwn o bobl sy'n cael eu heffeithio gan ganser.






## 730,000 o bobl

Fe wnaeth ein Nyrsys Macmillan, Gweithwyr Cymorth a Nyrsys Gofal Lliniarol gyrraedd tua 730,000 o bobl sy'n byw gyda chanser wrth iddynt fynd trwy ddiagnosis, triniaeth, apwyntiadau dilynol neu ofal diwedd oes.

## 59,000 o asesiadau

Cafodd 59,000 o bobl sy'n byw gyda chanser asesiad trwy blatfform Asesiad Anghenion Holistig Electronig (eHNA) Macmillan i helpu gyda'u holl anghenion a'u pryderon.





## £2.6 miliwn

Cododd ein Apêl Grantiau Brys £2.6 miliwn i helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw sy'n cynyddu.

## 110,000 wedi'u cefnogi




Fe wnaethom ni gefnogi tua 110,000 o bobl drwy Llinell Gymorth Macmillan.

## £310 miliwn



Fe wnaethom ni helpu i sicrhau dros £124 miliwn mewn budd-daliadau drwy'r cyngor lles ac ynni a ddarparwyd gan Llinell Gymorth Macmillan a £310 miliwn drwy ein Gwasanaethau Hawliau Lles lleol.



## £226.8 miliwn

Fe wnaeth ein cefnogwyr anhygoel a'n codwyr arian godi £226.8 miliwn.



## 11,600 o wirfoddolwyr

Rhoddodd dros 11,600 o wirfoddolwyr gweithredol dros 100,000 awr o'u hamser i gefnogi Macmillan.

## Dod o hyd i'r geiriau

**Yn 2023, fe wnaethom fynd i'r afael â rhwystrau i ddynion sy'n ceisio cefnogaeth drwy ein hymgyrch 'Dod o Hyd i'r Geiriau'.**

Mae dynion yn ffurfio ychydig dros hanner yr achosion canser newydd bob blwyddyn, a mwy na 40% o bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU, ond dim ond 38% o'r galwadau i'n Llinell Gymorth gan bobl â chanser oedd gan ddynion. Roedd angen i ni gael mwy o ddynion i siarad; yn enwedig ar draws pobl iau, pobl Dduon Prydeinig, a chymunedau LHDTC+.

Un o'r uchafbwyntiau mawr yn yr ymgyrch oedd rhoi sylw i waith y Prosiect Barbershop. Grŵp o farbwyr arloesol yw'r rhain sy'n chwalu tabŵs ac yn normaleiddio sgyrsiau am ganser yng ngofod diogel siop barbwr, lle eiconig yn y gymuned Dduon.



**Digwyddiad Macmillan yn stiwdio barbwr Cut Above The Rest yn East Ham, yn canolbwyntio ar normaleiddio sgyrsiau am ganser, yn enwedig ymhlith dynion o dras Du Affricanaidd a Caribîaidd**

## Fe wnaethom ni lansio ein hymgyrch 'Am Beth Ydym Ni'n Aros?'

Yn 2023, gwelsom fod o leiaf 100,000 o bobl ledled y DU wedi wynebu canlyniadau canser gwaeth oherwydd oedi cynyddol wrth gael diagnosis a dechrau triniaeth gyda'u gofal canser y GIG dros y 10 mlynedd diwethaf.

Mae'r gweithlu canser ymroddedig yn mynd uwchlaw yr hyn a ddisgwylir i ofalu am gleifion, ac eto maen nhw'n wynebu her amhosibl heb y staff na'r adnoddau sydd eu hangen arnynt.

Mewn ymateb, fe wnaethom lansio ein hymgyrch eiriolaeth gyhoeddus a chyhoeddi ein hadroddiad 'Am Beth Ydym Ni'n Aros?' i sicrhau bod llywodraethau yn gweithredu ar leihau amseroedd aros canser erbyn 2025 a rhoi llwyfan i bobl sy'n byw gyda chanser ledled y DU alw am newid.

Fe wnaethom ni gasglu 13,703 o lofnodion i gefnogi ein galwad i lywodraethau, gan gynnwys dylanwadu ar 51 o Aelodau Seneddol i lofnodi ein baner ymgyrch. Ac am y tro cyntaf mewn hanes, gwelsom ymgyrchwyr Macmillan ym mhob un o'r 650 etholaeth yn gweithredu.

**Darllenwch fwy am ein hymgyrch 'Am Beth Ydym Ni'n Aros?'.**




**Ymgyrchwyr ar risiau Siambr y Senedd yn Stormont i annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddychwelyd i'r gwaith a mynd i'r afael â'r materion hyn**

## Fe wnaethom ddarparu gwasanaethau canser o ansawdd uchel

Ar hyn o bryd, mae miloedd o bobl yn gorfod ymdopi heb y gefnogaeth gywir. Rydym ni'n gwybod bod pobl wahanol angen gwahanol fathau o gymorth ar wahanol adegau yn eu profiad o ganser. Mae canser yn effeithio ar lawer mwy nag iechyd corfforol rhywun. Mae pryderon ariannol, ymarferol ac emosiynol. Mae angen ystyried p'un a yw'r canser yn un y gellir ei drin ond nid ei wella, yn ogystal ag ystyried diwedd oes. Dyma pam mae gennym ni gymaint i'w gynnig pan ddaw i gefnogi pobl.

### Ein cyrhaeddiad a'n heffaith:




**15,000 wedi'u cefnogi**

Yn 2023, cefnogodd ein tîm Arweiniad Ariannol bron i 15,000 o bobl sy'n byw gyda chanser neu'n cael eu heffeithio gan ganser.



**9,000 o bobl**

Fe wnaeth dros 9,000 o bobl sy'n byw gyda chanser gyrchu ein sesiynau Cwnsela BUPA i'w helpu gydag effaith emosiynol canser.



**290,000 o bobl**

Cyrhaeddodd ein gweithwyr proffesiynol gofal lliniarol 290,000 o bobl sy'n byw gyda chanser mewn ysbytai yn 2023.

## Fe wnaethom wella ein gwasanaethau gwybodaeth am ganser lleol

Fe wnaethom ni siarad â phobl â chanser a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am yr hyn sydd wedi eu helpu a'r hyn y gallwn ni ei wneud yn well.

Fe wnaethom ni lansio adnoddau dysgu newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwybodaeth a chymorth a datblygu polisïau, canllawiau a thempledi i helpu pawb i gael profiad cyson a chadarnhaol. Fe wnaethom ni hefyd greu cynlluniau gwella ar gyfer gwasanaethau sy'n tanberfformio a buddsoddi mewn gwasanaethau newydd er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn ein darpariaeth i'n helpu i gyrraedd mwy o bobl â chanser wrth iddynt gael diagnosis, neu'n agos ato.

**Yn 2023, defnyddiodd 408,000 o bobl â chanser ein cynnig gwasanaethau gwybodaeth a chymorth ac, o'r rheini, defnyddiodd 102,000 o bobl ein gwasanaethau wrth iddynt gael diagnosis.**




Gwasanaeth Iechyd a Lles Macmillan yn Ysbyty Ulster

# Buddsoddiad Arloesi – Neutrocheck®

Fel rhan o Bortffolio Buddsoddi Effaith Arloesi Macmillan, fe wnaethom ein buddsoddiad cyntaf o £100,000 yn 52 North Health, datblygwyr Neutrocheck®. Mae'r ddyfais feddygol gludadwy hon yn brawf pigo bys i gael gwaed gartref sy'n asesu lefel risg sepsis niwtropenig mewn cleifion.

Mae'r cyflwr yn adwaith corff cyfan sy'n bygwth bywyd i haint, a all fod yn arbennig o beryglus i bobl â chanser. Gall cleifion cemotherapi gael sepsis niwtropenig oherwydd system imiwnedd sydd wedi'i hatal, a gall fod yn angheuol. Nod Neutrocheck® yw helpu pobl sy'n cael cemotherapi i weithredu'n gynnar, gan osgoi teithiau diangen i'r ysbyty.

> **"Byddai Neutrocheck® wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi yn ystod fy nhriniaeth ac adferiad canser. Roedd dal haint yn bryder cyson gan y gallai hyn fod yn fygythiad i fywyd pe bawn i'n niwtropenig; byddai unrhyw arwydd o dwymyn yn golygu taith i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys."**



**Jenni, aelod o Gymuned Arloesi Macmillan, wedi cael diagnosis o Lewcemia Myeloid Acíwt**



**Neutrocheck®, prawf gartref ar gyfer sepsis niwtropenig**



O ganlyniad i gario'r genyn BRCA 1, mae pysgotwr masnachol o North Shields, sydd bellach wedi ymddeol, Brian Chambers, 73, wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn ac wedi cael triniaeth ddwywaith

# Hyrwyddwyr Canser Cymunedol Macmillan

Mae Macmillan eisiau bod yno i bawb sy'n cael eu heffeithio gan ganser, felly, yn 2023, rydym ni'n cysylltu'n weithredol â grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn cymunedau lleol. Fe wnaethom ni sefydlu ein gweithgaredd Hyrwyddwyr Canser Cymunedol Macmillan i helpu i gyflawni hyn.

Daw ein hyrwyddwyr o'r un cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yr ydym ni wedi dewis canolbwyntio arnynt ac maen nhw'n gynrychiolwyr y gellir ymddiried ynddynt ar gyfer codi ymwybyddiaeth o ganser, helpu pobl i ymgysylltu â sgrinio, triniaeth a chyfeirio at ffynonellau cymorth eraill.

**"Rydym ni wedi gweld bod pobl sy'n byw yn rhai o rannau mwyaf difreintiedig y DU yn profi anawsterau sylweddol wrth gael gafael ar ofal canser wedi'i bersonoli. Mae hyn yn cynnwys pysgotwyr a'u teuluoedd mewn cymunedau arfordirol. Byddwn yn datblygu dulliau pwrpasol i ymgysylltu â'r gymuned hon i geisio dileu stigmas a mythau sy'n gysylltiedig â chanser, yn ogystal â darparu gwybodaeth berthnasol a chyfeirio i'w helpu i gael y gefnogaeth gywir."**

**Deb Johnstone, Rheolwr Rhaglen, prosiect Fisherman's Mission, sy'n gweithio o fewn y gymuned bysgota yn North Shields**




Ein Heic a Hanner yn Swydd Efrog. Yn 2023 cododd ein cyfres Heiciau a Hanner £12.3 miliwn anhygoel



Sicrhawyd partneriaeth elusennol gydag Omaze UK a'u cystadleuaeth Million Pound House proffil uchel, gan godi £1.7 miliwn anhygoel




Cynhaliodd ein cefnogwyr gwerthfawr ddigwyddiadau Bore Coffi Macmillan drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaeth Melissa (dde) sydd wedi cael diagnosis o ganser y fron, gynnal disgo yn ystod y dydd gan godi £3,310 anhygoel i Macmillan. Mae Melissa yn y llun gyda Chloe (chwith), wedi cael diagnosis o Lewcemia Myeloid Cronig




Mae dros 10,500 o weithwyr proffesiynol Macmillan ledled y DU. Yn 2023, dyfarnwyd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE) i Arbenigwr Nyrs Canser Gynaecoleg Macmillan, Sharon Manning, am wasanaethau i ofal cleifion



Stewart, gwirfoddolwr Cyfaill Ffôn

## Fe wnaethom gynyddu nifer y Cyfeillion Macmillan gwirfoddol

Mae ein Cyfeillion gwirfoddol yn darparu cefnogaeth un i un emosiynol i bobl â chanser. 2023 oedd ein blwyddyn brysuraf ar gyfer y cynllun ers iddo lansio yn ystod y pandemig yn 2020. Fe wnaethom dyfu ein rhwydwaith Cyfeillion yn sylweddol, gan sicrhau cyrhaeddiad daearyddol llawer ehangach o gefnogaeth emosiynol i bobl â chanser yn ystod diagnosis cynnar.

- **Fe wnaethom ni gynyddu nifer y Cyfeillion Macmillan gweithredol i dros 770 yn 2023.**
- **Cynigiodd y Cyfeillion dros 38,000 o sesiynau cymorth i dros 3,500 o bobl â chanser.**
- **Fe wnaethant roi 76,000 o oriau o gymorth gwirfoddol, sef oriau gwaith cyfatebol 50 aelod staff llawn amser.**

# Edrych ymlaen at 2024

**Nodyn gan ein Prif Weithredwr, Gemma Peters**

Ers mwy na chanrif, mae Macmillan wedi gweithio i gefnogi pobl sy'n byw gyda chanser a sicrhau eu bod yn cael y gofal sy'n iawn iddyn nhw, pan fydd ei angen arnynt. Ond rydym ni'n gwybod bod byw gyda chanser yn gwaethygu i lawer, a bod angen mwy o gefnogaeth wahanol ar bobl. Mae'r pandemig, heriau yn y GIG, ac argyfwng costau byw wedi gwneud pethau'n anoddach i bobl â chanser — ac yn anoddach i Macmillan gael yr effaith mae angen iddo ei chael.

Fel sefydliad, mae angen i ni esblygu er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl sy'n byw gyda chanser, nawr ac wrth iddynt newid yn y dyfodol. Rydym ni'n gweithio i greu strategaeth uchelgeisiol a fydd yn rhoi mwy o ffocws a blaenoriaethu i ni, gyda phrofiad pobl â chanser wrth wraidd ein dull gweithredu. Bydd ecwiti yn flaenoriaeth, meddwl p'un a yw'r cyfeiriad newydd o fudd i gymunedau ymylol ac os yw'n creu'r potensial ar gyfer effaith wirioneddol, diriaethol. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r bobl a'r cymunedau yr ydym ni'n bodoli i'w cefnogi, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i helpu i fynd i'r afael â'r bylchau enfawr ac annerbyniol mewn data a gofal ledled y DU.

Ein blaenoriaeth gyntaf fydd sicrhau bod pawb sydd â chanser yn cael y gofal a'r gefnogaeth orau.



**Gemma Peters**
**Prif Swyddog Gweithredol**



# Ein blaenoriaethau yn 2024

- **Datblygu a lansio ein strategaeth ar gyfer 2025–2030.**
- **Trawsnewid Macmillan i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.**
- **Profi ffyrdd newydd o ddarparu ein gwasanaethau.**
- **Helpu mwy o bobl i gael y gofal sy'n iawn iddyn nhw.**
- **Gweithio'n agos gyda'n gweithwyr proffesiynol Macmillan.**
- **Cyrraedd ein targed incwm 2024.**
- **Gwneud y gorau o'n systemau a'n prosesau mewnol.**




## Y dyn gyda'r pram – stori John

Mae'r cefnogwr gwerthfawr John Burkhill, 85, wedi bod yn codi arian i Macmillan ers 17 mlynedd er cof am ei wraig June. Boed haul neu hindda, gellir dod o hyd i John y rhan fwyaf o ddyddiau yn strydoedd Sheffield yn gwisgo ei wig gwyrdd ac yn gwthio pram ei ddiweddar ferch i godi arian i Macmillan.

Yn 2023 cyrhaeddodd John ei garreg filltir codi arian gwerth £1 miliwn. Aeth ymlaen i ennill gwobrau rhanbarthol a chenedlaethol Pride of Britain yn ogystal â Gwobr Points of Light gan y cyn Brif Weinidog, Rishi Sunak. Diolch a llongyfarchiadau John gan bawb yn Macmillan.

Yn Macmillan, rydym ni'n rhoi popeth sydd gennym ni i bobl sydd â chanser. Os cewch ddiagnosis, eich pryderon chi yw ein pryderon ni. Byddwn yn symud mynyddoedd i'ch helpu i fyw bywyd mor llawn ag y gallwch chi.

Ac nid ydym yn stopio yno. Rydym ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i ddod o hyd i ffyrdd gwell fyth o helpu pobl â chanser, gan helpu i agosáu at y diwrnod pan fydd pawb yn cael cefnogaeth sy'n trawsnewid bywyd o'r diwrnod cyntaf.

Rydym ni'n gwneud beth bynnag sydd ei angen. Ond heb eich help chi allwn ni ddim cefnogi pawb sydd ein hangen ni. I roi, gwirfoddoli, codi arian neu ymgyrchu gyda ni, ffoniwch **0300 1000 200** neu ewch i **macmillan.org.uk**




**Ewch i'n gwefan i ddarllen ein Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023.**

CYMORTH CANSER MACMILLAN

Cymorth Canser Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017),
Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon.
MAC19825_OVERVIEW